



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 2 Hydref 2018 am 6.00yh
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 2 October 2018 at 6.00pm
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors John Adams-Lewis (*yn y gadair/in the chair*), Clive Davies, Elaine Evans (*gadawodd am/left at 7.30pm*), Graham Evans, Marilyn Farmer, Richard Jones, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Yvonne O'Neill (*gadawodd am/left at 7.20pm*), Trystan Phillips, Mr Wynford Jones (*clerc/clerk*).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol. The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i'r cyfarfod gyda chroeso arbennig i'r clerc yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Cyfeiriodd at farwolaeth cyn-Faeres tref Aberteifi (1949-50), Mrs Anne James, Stepside; roedd yn weddw i'r diweddar Henadur Aneurin James, YH. Bu Mrs James yn Llywydd Clwb Golff Aberteifi ac yn aelod ffyddlon o Gapel y Tabernacl. Cydymdeimlwyd gyda'r Cyng. Elaine Evans hefyd ym marwolaeth ei modryb yn ddiweddar. Da oedd cyhoeddi bod ymdrechion Mrs Teresa Harries a'i chydweithwyr i godi arian at elusen Nyrsys Macmillan ym Maesglas wedi codi dros £1,500.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed all to the meeting, especially the clerk following his recent surgery at Bronglais Hospital. Reference was made to the passing of Mrs Anne James, Stepside, a past Mayoress of Cardigan (1949-50); Mrs James was the widow of Alderman Aneurin James, JP, and had served as president of Cardigan Golf Club; she was an ardent member of Tabernacle Chapel. The council's condolences were also offered to Cllr Elaine Evans on the recent passing of her aunt. Mrs Teresa Harries and her many helpers in Maesglas were warmly congratulated by the Mayor on their magnificent effort in raising over £1,500 for the Macmillan Nurses charity.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs Debra Griffiths, Steffan Morgan, Shan Williams

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Holl faterion cynllunio / All planning matters</i>
Y Cyng. / Cllr Clive Davies	<i>Rhoddion / Grants (12[3]) Gohebiaeth/Correspondence 11[128]</i>
Y Cyng. / Cllr Richard Jones	<i>Gohebiaeth/Correspondence 11[128]</i>
Y Cyng. / Cllr Catrin Miles	<i>Rhoddion / Grants (12[7])</i>
Y Cyng. / Cllr Steffan Morgan	<i>Rhoddion / Grants (12[1])</i>

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 4 Medi.

Confirmation of Minutes of 4 September Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod cofnodion cyfarfod 4 Medi yn gywir.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 4 September council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Elaine Evans.

5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 4 Medi (Mewn Pwyllgor).

Confirmation of Minutes of 4 September Council Meeting (In Committee).

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod cofnodion cyfarfod 4 Medi yn gywir.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 4 September council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Elaine Evans.

Materion yn codi / Matters arising

Mae'r clerc wedi siarad â Mrs Carol Harries (Clerk Cyngor Cymuned Beulah) sydd yn barod i fod ar alwad pe bai angen dirprwyo yn absenoldeb y clerc.

The clerk has spoken to Mrs Carol Harries (Clerk of Beulah Community Council) who is prepared to be on stand-by to deputise for the clerk if and when necessary.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fis Medi yn y cyfarfod.

The Mayor's Diary of Events for September was distributed at the meeting.

8. Cynllunio / Planning:

<i>Rhify Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A180877	Unit 1-4 Pentood Industrial Estate	Proposed demolition and reconfiguration of existing units with extension for B1/B2/B8 use.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.
A180910	Land East of Parc Teifi Business Park	Formation of track, construction of footbridge and erection of general purpose storage building associated with use of land as a forest garden (agriculture)	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> The council has no objection.

9. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhify Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
27/9/18	Siemens: <i>Prydles y llungopiwr / Lease of photocopier</i>	A17	D/D	£150.00 (25.00)
1/10/18	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Medi / September).</i> <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (4 & 18 Medi / September)</i> <i>Band Lydan (Hydref) / Broadband (October)</i>	A9 A9 A20	D/D 4607 4607	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 (0.00)
1/10/18	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (4/9/18)</i>	A18	4608	£70.80 (0.00)
1/10/18	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Medi / September)</i>	A5	4609	£763.03 (0.00)
2/10/18	HMRC: <i>PAYE £572.28, Class 1 NIC £104.25 (Gorffennaf, Awst, Medi / July, August, Sept. 2018)</i>	A16	4610	£572.28 (IT) + £104.25 (NIC) = £676.53 (0.00)
11/9/18	Julie John (<i>Ffotograffydd / Photographer</i>): <i>Gwasanaeth / Service for 2017-18</i>	A15	4611	£150.00 (0.00)
24/9/18	Caffi Sgwâr Finch Square Café: <i>Stampiau / Stamps</i>	A8	4612	£80.60 (0.00)
18/9/18	Midshire: <i>Llungopiö / Photocopying: Facility fee</i>	A17	4613	£178.80 (29.80)
30/9/18	I. & E. Davies, Crosswell: <i>Installation of concrete bases for erecting town maps</i>	B9	4614	£358.48 (59.74)
1/10/18	Vision ICT: <i>Cynnal y safle we / Website hosting Dec. 2018 – November 2019</i>	C8	4615	£252.00 (42.00)
19/9/18	BT: <i>Ffôn / Telephone</i>	A20	4616	£87.64 (14.61)
30/9/18	<i>Bachan Deche / Handyperson (Medi / September)</i>	A19	4617	£554.40 (92.40)
18/7/18	Sutcliffe Play: <i>Cyfarpar chwarae Pentop play equipment</i>	C12		£26,038.80 (4,339.80)

Cynigiodd y Cyng. Clive Davies bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans. Bydd y Cyng. Catrin Miles a'r clerc yn archwilio anfoneb Sutcliffe Play cyn ei dalu.

Cllr Clive Davies proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Elaine Evans. Cllr Catrin Miles and the clerk will scrutinise the Sutcliffe Play invoice before finalising payment.

Derbyniadau/Receipts:

9/8/18 *Llog y Banc* / Bank interest

£1.92

- (b) **Adroddiad Ariannol Chwarterol y Cyngor / Council's Quarterly Financial Report. Mae'r adroddiad chwarterol ariannol hyd ddiwedd mis Medi wedi ei ddsbarthu i'r cynghorwyr ymlaen llaw.**

Cynigiodd y Cyng. Yvonne O'Neill ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies bod y cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad.

The quarterly financial report to the end of September had been distributed to members in advance.

Cllr Yvonne O'Neill proposed that the council approves the report; seconded by Cllr Clive Davies.

- (c) **Cadarnhau dyddiad archwiliad ariannol mewnol gan gynghorwyr.**

Confirmation of date of internal financial paper trail by councillors.

Cytunodd y Cyng. Marilyn Farmer drefnu gyda'r Cyng Shan Williams penodiad dyddiad yr archwiliad.

Cllr Marilyn Farmer agreed to liaise with Cllr Shan Williams to set a date for the inspection.

10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) **Cynhelir cyfarfod i breswylwyr ardal Ffordd Llandudoch yn y "Fusion" ar 8 Hydref am 6:00yh i drafod y cam nesaf i leihau pryderon pobl yr ardal oherwydd cyflymdra'r drafndiaeth.**
- (ii) **Cynhelir digwyddiad o 4:00-5:00yp ar 16 Hydref i dderbyn adborth plant a rhieni Cae Chwarae Pentop i'r cyfarpar newydd sydd wedi eu gosod yno.**

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) **Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol ddraft ar gyfer 2019-2024. Mae'r ddogfen ymgynghoriad ar gael ar y wefan: <http://www.tancgc.gov.uk/>**
- (ii) **Mae Clwb Seiclo Caron wedi trefnu taith seiclo i godi arian at Eisteddfod Ceredigion 2020. Bydd y daith yn digwydd ar 3 a 4 Awst 2019 o amgylch Ceredigion – ar y dydd Sadwrn ac yna i'r Eisteddfod yn Llanrwst ar y dydd Sul.**

(c) Y Cyng. Elaine Evans:

- (i) **Cwyn am gyflwr cerrig beddau mynwent Aberteifi yn dilyn torri'r borfa. Cytunwyd bod llythyr yn cael ei anfon at y cyngor sir yn nodi'r cwynion.**

(a) Cllr Catrin Miles:

- (i) A meeting will take place at the "Fusion" on 16 October at 6:00pm to discuss the way forward to reduce the speed of traffic along the St Dogmaels highway.
- (ii) An event will be held on 16 October from 4:00-5:00pm to receive the children and parents' feedback to the development on the Pentop Play Area.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) The Mid Wales & West Wales Fire & Rescue Service has published its draft Corporate Plan for 2019-2014. The consultation document is available on the website: <http://www.mawwfire.gov.uk/>
- (ii) Tregaron Cycling Club has arranged a cycling tour to raise money towards the Eisteddfod Ceredigion 2020. The tour will be held on 3 and 4 August 2019. It will take place around Ceredigion on the 3rd and to the Eisteddfod at Llanrwst on the 4th August.

(c) Cllr Elaine Evans:

- (i) Complaints regarding the condition of gravestones at Cardigan cemetery following grass-cutting sessions.
It was agreed to forward a letter to the county council noting the complaints.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
117	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – 135 Maesglas: 10/8/18-11/8/18, 08:00-17:30: Gwasanaeth dŵr / Emergency water service repairs</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 11 Medi. Forwarded to all councillors on 11 September.</i>
118	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – 1 Williams Row 08:30-16:30 3/10/18-5/10/18 Gwasanaeth nwy / Gas service.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 18 Medi. Forwarded to all councillors on 18 September.</i>
119	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – Stryd Wiliam Street. 08:30-16:30 3/10/18-5/10/18 Gwasanaeth nwy / Gas service.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 18 Medi. Forwarded to all councillors on 18 September.</i>
120	CSC / CCC (Lowri Edwards): <i>Canfaswyr y Gwasanaethau Etholiadol: Swydd wag yn yr ardal. Electoral Services Canvassers: A vacancy in the area.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 11 Medi. Forwarded to all councillors on 11 September. Am ragor o fanylion / For further information: GwasanaethauEtholiadol@ceredigion.gov.uk</i>
121	CSC / CCC (Carol Davies): <i>Cydnabyddiaeth o lythyr y cyngor am amryw o dasgau ar risiau Neuadd y Dref a Chei Tywysog Siarl ac arwydd y swyddfa yn Stryd Morgan. Acknowledgement of the council's request for various tasks including the Guildhall steps, the Prince Charles quay slabs and the Morgan Street office sign.</i>	<i>Nodwyd. Noted.</i>
122	CSC / CCC (Alun G. Davies): <i>Ymateb negyddol i osod bin sbwriel rhwng Gerddi Napier a Maeshenffordd. Negative response to place litter bin between Napier Gardens and Maeshenffordd.</i>	<i>Cysylltodd y Cyng. Marilyn Farmer gyda'r cyngor sir yn uniongyrchol. Cytunwyd anfon copi ymlaen at yr holl gynghorwyr a'r Cyng. Elaine Evans i ddilyn y trywydd. Cllr Marilyn Farmer contacted the county council independently. It was agreed to forward a copy to all members and Cllr Elaine Evans to pursue the request.</i>
123	CSC / CCC (Alwyn M. Roberts): <i>Cyfarfod Cyhoeddus Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2020. 2020 National Eisteddfod of Wales Public Meeting. 20/9/18, Ysgol Gyfun Aberaeron, 7.00pm.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr. Forwarded to all councillors. Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd. Poster has been displayed in notice board. Mae cyfarfod pellach i'w gynnal ar 13 Hydref. A further meeting is to be held on 13 October.</i>
124	CSC / CCC (Alan Haird): <i>Diweddariad Cynlluniau Lle / Update of Place Plans scheme.</i>	<i>Dyweddodd y Cyng. Clive Davies bod Partneriaeth Canol Tref yn barod i symud y cynllun ymlaen a bod arian ar gael gan "Cynnal y Cardi". Cllr Clive Davies stated that the Town Centre Partnership will discuss the way forward and that funding is now in hand with "Cynnal y Cardi".</i>
125	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Gosod cyfarpar parcio beiciau yn Stryd Morgan / Placing of bicycle parking hoops in Morgan Street</i>	<i>Cytunodd y Cyng. Catrin Miles drafod y mater gyda'r cyngor sir. Cllr Catrin Miles agreed to discuss the proposal with the county council.</i>
126	CSC / CCC: <i>Diweddariad am ddyfodol TIC yn Aberteifi / Update of the future TIC amenity in Cardigan</i>	<i>Mae'r Cyng. Miles wedi anfon sylwadau'r aelodau at y cyngor sir gyda'r awgrym bod y safle yn cael ei symud i gyntedd Castell Aberteifi a bod un swyddog yn cael ei gyflogi yno. Y teimlad cryf oedd bod canolfannau eraill yng Ngheredigion yn cael y flaenoriaeth. Cllr Miles has forwarded the observations of members to the county council with a suggestion that the service be moved to the Castle and that one officer be employed. It was deemed that other towns in Ceredigion were shown priority by the authority.</i>
127	CSC / CCC: (Marianne De Vries): <i>Ymateb i gyrb isel / Response to the low kerb at Golwg y Castell</i>	<i>Nodwyd. Noted.</i>

128	4CG / Cymdeithas Cynnal/Cefnogi Cefn Gwlad: <i>Cais am gynorthwyo gyda chostau cynnal toiledau yn Lôn y Moch a Feidrfair.</i> Application for funding to assist with the running costs of maintaining the Feidrfair and Chancery Lane toilets.	<i>Cynigiwyd gan y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Trystan Phillips bod £8,000 a awgrymwyd yng nghyfarfod cyllideb y cyngor yn cael ei drosglwyddo i gynorthwyo'r cwmni i gynnal a chadw'r ddau gyfleustra.</i> It was proposed by Catrin Miles and seconded by Cllr Trystan Phillips that the sum of £8,000 recommended at the budget meeting be allocated to assist the company to maintain and keep open the two conveniences.
129	<i>Clwb Rygbi Aberteifi / Cardigan RFC (Mr Hefin Harries): Cais am symud ymlaen gyda chwblhau trefniadau'r brydles.</i> Letter requesting the finalisation of the lease.	<i>Mae'r Cyng. Adams-Lewis wedi trafod y mater o'r prydlesau gyda Mr John Dyer, cyfreithiwr y cyngor.</i> Cllr Adams-Lewis stated that Mr John Dyer, the council solicitor, confirmed on 1 October that the Cardigan Bowls Club lease is close to being agreed and that the Rugby Club lease will be discussed with the Club's solicitor to enable a draft to be supplied as soon as possible.
130	Royal Air Force: <i>Cais i osod cerbyd hysbysu /</i> Application to place a VW transporter for a recruitment drive on 13 November.	<i>Awgrym/Suggestion:</i> (a) <i>Ger/alongside The Factory Shop, High Street.</i> (b) <i>Maes parcio'r Cei / Quay Street car park.</i> Mae angen gwneud cais at y cyngor sir. <i>An application to be made to the county council.</i>
131	<i>Swyddog Datblygu Busnes: Poster "Ffair Gymraeg yn y Gweithle"</i> Welsh Language Development Officer (Business): "Welsh in the Workplace Fair", Castell Aberteifi, 4/10/18, 10:30-15:00.	<i>Poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster displayed on the notice board. <i>Mae'r cyngor yn siomedig gyda'r rhybudd byr a gafwyd am y digwyddiad.</i> Council is disappointed at the short notice given of the event.
132	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd – Llais Cymunedau ar Iechyd a Gofal": Adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad.</i> Hywel Dda University Health Board: "Our Big NHS Change – Communities' Voice on Health and Care": The independent report following the 12-week consultation period.	<i>Mae'r adroddiad llawn ar gael ar:</i> The full report is available on the Health Board's consultation web resource at www.hywelddahb.wales.nhs.uk/hddchange
133	Royal Naval Association (Cardigan & District Branch): <i>Croes goffadwriaeth.</i> Remembrance cross to commemorate 100 years of World War I: £5.00 each	<i>Cytunwyd archebu un groes am £5.</i> It was agreed to purchase one cross at £5.
134	D. M. B. Davies (Cyfrifyddion/Accountants): <i>Ymateb i lythyr y cyngor.</i> Response to the council's letter.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
135	RNLI (Lifeboats): <i>Gwahoddiad i'r Maer gymryd rhan yng Ngwasanaeth Carolau yn Eglwys Llandudoch, 16 Rhagfyr am 6.30yh.</i> Invitation to the Mayor to undertake a reading at the Christmas Carol Service at St Thomas' Church, St Dogmaels on 16 December at 6.30pm.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has accepted the invitation.
136	RNLI (Lifeboats): <i>Gwahoddiad i'r Maer agor Ffair Nadolig yr elusen yn Eglwys Gatholig Aberteifi, 17 Tachwedd am 10.00yb.</i> Invitation to the Mayor to open the Christmas Fair at the Catholic Church Rooms on 17 November at 10.00am.	<i>Yn absenoldeb anorfod y Maer, trosglwyddwyd y gwahoddiad i'r Dirprwy Faer.</i> In the unavoidable absence of the Mayor, the invitation was extended to the Deputy Mayor.
137	Sutcliffe Play: <i>Tystysgrif cwblhau'r gwaith ar Gae Chwarae Pentop.</i> Practical Completion Certificate (Pentop)	<i>Cytunodd y Cyng. Miles a'r clerc lanw'r dystysgrif.</i> Cllr Miles and the clerk agreed to complete the certificate.
138	Royal British Legion Cardigan Branch (Y Llog Brydeinig): <i>Cais am gymorth ariannol/Request for financial support.</i>	<i>Trafodwyd yng nghyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> The request was discussed at the September Grants Sub-committee meeting.
139	<i>Clwb Ieuencid Aberteifi / Cardigan Youth Club: Cais am gymorth ariannol/Request for financial support.</i>	<i>Trafodwyd yng nghyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> The request was discussed at the September Grants Sub-committee meeting.

140	<i>Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Swimming Pool & Hall: Cais am gymorth ariannol/Request for financial support.</i>	<i>Trafodwyd yng nghyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi. The request was discussed at the September Grants Sub-committee meeting.</i>
141	<i>Clwb Pêl-droed Maesglas Football Club: Cais am gymorth ariannol/Request for financial support.</i>	<i>Trafodwyd yng nghyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi. The request was discussed at the September Grants Sub-committee meeting.</i>
142	<i>Clwb Pêl-droed Aberteifi / Cardigan Football Club: Cais am gymorth ariannol/Request for financial support.</i>	<i>I'w drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth. To be discussed at the March Grants Sub-committee meeting.</i>
143	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Medi Handyperson: September Report</i>	<i>I'w drafod tan eitem 12. To be discussed under item 12.</i>

Alan Haird:	<i>Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau / Project Management and Development Officer</i>
Alwyn M. Roberts:	<i>Pennaeth Gweithredu Cymunedol / Head of Community Delivery</i>
Alun G. Davies:	<i>Street Scene Service Manager</i>
Carol Davies:	<i>Business Support Team Leader</i>
Elin Jones:	<i>Swyddog Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Officer</i>
Gari Jones:	<i>Peiriannydd Cynorthwyl Strategaeth Trafnidiaeth / Assistant Engineer Transport Strategy</i>
Lowri Edwards:	<i>Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Democratiaid / Group Manager – Democratic Services</i>
Marianne De Vries:	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Section</i>

12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 18 Medi.

Confirmation of 18 September Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod cofnodion 18 Medi yn gywir.

Cllr Clive Davies proposed that the 18 September minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

Materion yn codi / Matters arising

Tud. 1408 (a) (Gardd Brioude): Dywedodd y Cyng. Davies bod cynlluniau ar waith ac y'i hanfonir ymlaen at y cyngor.

Page 1408 (a) (*Brioude Garden*): Cllr Davies stated that final plans were on-going and would be forwarded to the council.

Tud. 1408 (b) (Safle we'r Cyngor): Mae cyfeiriad tri chwmni wedi eu hanfon ymlaen at y clerc.

Page 1408 (b) (*Council Website*): The addresses of three companies have been forwarded to the clerk.

Tud. 1409 (e) (Gwobrau Strydoedd Mawr Prydain Fawr): Caiff y categori ei feirniadu ar 22 Hydref. Disgwylir i'r Maer arwain y beirniaid o amgylch y dref. Diolchwyd i fasnachwyr y dref am eu hysbysiadau o amgylch y map hardd o waith Lisa Hellier a welir yn y "Tivy-Side".

Page 1409 (e) (*Great British High Street Awards*): The judging will take place on 22 October. The Mayor will host the judges in the individual categories: "Rising Star Award" for new businesses, and also the established businesses in town. Local traders were thanked for supporting the artistic map printed in the "Tivy-Side" centre page spread this week including Lisa Hellier's artwork.

Goleuadau Nadolig: Cytunwyd bod y clerc yn archebu coeden Nadolig gyda chwmni Penrallt Ceibwr. Cytunodd yr is-bwyllgor drafod ychwanegu at y goleuadau.

Christmas Lights: It was agreed that the clerk orders a Christmas tree with Penrallt Garden Centre. The sub-committee agreed to discuss enhancing the Christmas lights.

Bachan Deche: Daeth argymhelliad oddi wrth Mr John Morris am gynllun gan gof lleol i greu pabi coch o wneuthuriad dur, tua 15 modfedd mewn diamedr i nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf (1918-2018). Cynigiwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod y cyngor yn derbyn yr argymhelliad. Cytunodd y clerc gysylltu â'r cyngor sir am leoliad i'r addurn.

Handyperson: Mr John Morris offered a suggestion that a local blacksmith could manufacture a red poppy approx. 15" in diameter made of steel to be placed near the war memorial to commemorate the end of the First World War (1918-2018). Cllr Yvonne O'Neill proposed that the council accepts the recommendation; seconded by Cllr Elaine Evans. The clerk to contact the county council regarding its location.

13. Ceisiadau am gymorth ariannol: Argymhellion yr Is-bwyllgor Grantiau (tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adrannau 137, 142, 145)

Grant applications: Recommendations of the Grants Sub-committee (under sections 137, 142, 145 of the Local Government Act 1972)

1– Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Memorial Pool & Hall	£2,000
2–Girlguiding – Cardigan Guides	£500
3–Cymdeithas Aberteifi Society	£1,000
4–Cynllun Chwarae Aberteifi / Cardigan Playscheme	£200
5–Royal British Legion Cardigan Branch / Y Lleng Brydeinig	£250
6–Clwb Pêl-droed Maesglas Football Club	£450
7–Clwb Ieuenticid Aberteifi / Cardigan Youth Club	£500

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod yr uchod yn derbyn y grantiau a awgrymwyd gan yr is-bwyllgor.

Cllr Marilyn Farmer proposed and Cllr Graham Evans seconded that the above donations be granted as recommended by the Sub-committee.

14. Personél / Personnel.

15. Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.

Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

16. Unrhyw Fater Arall cofrestrwyd ymlaen llaw.

Any Other Business recorded in advance.

(a) Y Cyng. / Cllr Catrin Miles

(i) Rhwydwaith Mannau Chwarae Ceredigion: Hyfforddiant er mwyn archwilio manau chwarae.

Cytunwyd bod y cyngor yn cadw at y drefn bresennol gan fod y Bachan Deche hefyd yn archwilio'r cyfarpar.

Ceredigion Play Area Network: Training to carry out inspections of play areas.

It was agreed that the council continues with the RoSPA inspection. The council Handyperson also inspects the equipment.

(b) Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein

(i) Golau'r stryd ym Maesglas (122/123/124/125)

Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis ei fod wedi siarad â Mr Simon Bray, swyddog goleuadau strydoedd y cyngor sir, ynglŷn ag archwilio'r goleuadau yn Aberteifi.

Street light at Maesglas (122/123/124/125).

Cllr Adams-Lewis stated that he had discussed with Mr Simon Bray, the county council street lights officer, regarding inspecting the lights which are under the jurisdiction of Cardigan Town Council

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.46yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.46pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date